# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

**RHAN 4**

SAFONAU

**PENNOD 9**

CYFFREDINOL

*Codau ymarfer*

**68 Codau ymarfer**

(1) Caiff y Comisiynydd ddyroddi codau ymarfer at ddiben darparu canllawiau ymarferol am ofynion unrhyw safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) (“codau ymarfer safonau”).

(2) Caiff y Comisiynydd adolygu codau ymarfer safonau neu eu tynnu'n ôl.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd beidio â dyroddi, adolygu neu dynnu'n ôl god ymarfer safonau heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

(4) Cyn ceisio'r cydsyniad hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori—

- (a) â'r personau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau y mae'r cod ymarfer yn ymwneud â hi neu â hwy, a
- (b) â'r Panel Cynghori.

(5) Pan fo cod ymarfer yn cael ei ddyroddi gan y Comisiynydd, rhaid i'r Comisiynydd hefyd ddyroddi hysbysiad ysgrifenedig—

- (a) sy'n nodi pa god sydd dan sylw ac sy'n datgan dyddiad y dyroddi, a
- (b) sy'n pennu safon neu safonau y mae'r cod yn ymwneud â hi neu â hwy.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(6) Pan fo'r Comisiynydd yn tynnu cod ymarfer yn ôl, rhaid i'r Comisiynydd ddyroddi hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi'r cod dan sylw ac yn datgan y dyddiad y mae'r cod i beidio â bod yn effeithiol.

**69 Methiant i gydymffurfio â chodau**

(1) Nid yw methiant person i gydymffurfio â darpariaeth mewn cod ymarfer a gymeradwywyd yn peri i'r person hwnnw fod yn agored i gamau gorfodi o unrhyw fath.

(2) Ond os cymerir unrhyw gamau o dan y Mesur hwn mewn perthynas â methiant person (P) i gydymffurfio â safon ("y methiant safonau honedig")—

(a) caniateir dibynnu ar fethiant P i gydymffurfio â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer a gymeradwywyd fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau bod P yn atebol am y methiant safonau honedig, a

(b) caniateir dibynnu ar gydymffurfedd â darpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer a gymeradwywyd fel rhywbeth sy'n tueddu i gadarnhau nad yw P yn atebol am y methiant safonau honedig.

(3) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god ymarfer a gymeradwywyd yn gyfeiriadau—

(a) at god ymarfer safonau fel y mae'n effeithiol am y tro, a

(b) pan fo cod ymarfer safonau wedi ei adolygu, at y cod hwnnw fel y'i hadolygwyd fel y mae'n effeithiol am y tro.